

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol i brosesu data personol sy'n berthnasol i'r modd y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymatebion a anfonir gennych yn cael eu gweld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad yn ymwneud ag ef, neu er mwyn cynllunio ymgynghoriadau at y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ymhellach, mae'n bosibl y gwneir y gwaith hwn gan gontractwyr trydydd parti (ee corff ymchwil neu gwmni ymgynghori). Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion caeth o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i bob ymgynghoriad. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r corff a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os dymunwch aros yn ddienw, nodwch hynny wrth anfon eich ymateb, a byddwn yn dileu eich manylion cyn cyhoeddi'r dogfennau.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth:

<https://gov.wales/about/open-government/freedom-of-information/?skip=1&lang=cy>

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na 3 blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arnynt
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu i'r data gael eu prosesu neu i gyfyngu ar hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Cysylltiadau

I gael gwybod rhagor am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>